# Amlinelliad o'r Swydd

## Teitl y Swydd:
Cynorthwyydd Bwyd a Diod Achlysurol

## Sail:
Achlysurol

## Cyflog:
Gradd 10

## Lleoliad:
Tŷ Bryngarw

## Yn atebol i:
Rheolwr Bwyd a Diod

## Yn gyfrifol am:
Amherthnasol

## Eich Rôl:

Dyma gyfle cyffrous i fod â rhan hanfodol yn y gwaith o gyflwyno ein digwyddiadau a'n derbyniadau yn Nhŷ Bryngarw (Brynmenyn).

Gan weithio fel rhan o dîm penodol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, byddwch yn helpu i gynnal ein priodasau a'n digwyddiadau.

Gan gynnal y safonau uchaf o ofal i gwsmeriaid a dull gweithredu proffesiynol, byddwch yn cyfrannu at sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu profiad cwsmer o'r radd flaenaf

.

# Yn y rôl hon, byddwch yn:

- Dangos y safonau uchaf o groeso a gofal bob amser wrth gynorthwyo cwsmeriaid.
- Gweini cwsmeriaid yn effeithlon gydag archebion bwyd a diod .
- Rhoi cyngor, arweiniad ac argymhellion ar ddewis o fwydlenni, cyfleusterau a gwybodaeth am y lleoliad er mwyn sicrhau profiad cadarnhaol i westeion.
- Ymdrin â chwynion cwsmeriaid yn broffesiynol, yn briodol ac yn unol â chanllawiau rheoli.
- Sicrhau gwybodaeth dda am y diodydd, cynhyrchion a gwasanaethau sydd ar gael
- Cadw amgylchedd gwaith glân a thaclus bob amser
- Sicrhau bod gennych yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch eitemau newydd y fwydlen a chreu arddangosfeydd
- Cyfrifol am ddiogelwch (cynnyrch ac arian parod), cymryd taliadau'n gywir a bod yn wyliadwrus am gardiau credyd twyllodrus ac ati.
- Gweithio o fewn canllawiau sefydledig a gweithdrefnau gweithredu
- Rhoi gwybod am unrhyw ddamweiniau neu rai a fu bron â digwydd
- Cymhwyso lefelau uchel o hylendid, glanweithdra a diogelwch bob amser
- Byddwch yn cadw at ein cod gwisg a'r wisg gywir bob amser
- Sicrhau bod holl bolisïau a gweithdrefnau'r Cwmni a Chleientiaid, rheolau'r safle a rheoliadau statudol sy'n ymwneud â Diogelwch Bwyd, Iechyd a Diogelwch, arferion gwaith diogel, hylendid, glendid, tân a Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael eu cadw atynt
- Ymwybodol o'r holl Weithdrefnau Tân a Gwacau Brys ac yn sicrhau bod rhagofalon arferol yn cael eu cymryd i amddiffyn rhag peryglon tân a diogelwch

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd a allai gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd a'ch anweithredoedd yn y gwaith.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn rôl y swydd.
- Cynnal a chynnwys ein diben a'n gwerth ym mhopeth yr ydych chi'n ei wneud.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth.
- Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau sydd wedi'u cynnwys yn y swydd hon, a all fod angen eu hamrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes

# Manyleb y Person

## Y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL (**H**):

- Yn arwain drwy esiampl, yn edrych yn drwsiadus, yn broffesiynol gydag agwedd parod i gyflawni (H)
- Cyfeillgar, yn hawdd mynd ato, yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm a rhannu arferion gorau (H)
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol.
- Croesawu a derbyn newid gydag agwedd gadarnhaol (H)
- Angerddol dros wasanaeth ardderchog i gwsmeriaid gyda diddordeb brwd mewn bwyd (H)
- Addasadwy a hyblyg i ateb gofynion (H)
- Mwynhau creu ymdeimlad personol gyda chwsmeriaid (H).
- Dangos agwedd ragweithiol a chadarnhaol wrth wreiddio gwerthoedd Awen drwyddi draw.
- Yn cyfrannu syniadau ac atebion ac yn gallu eu cymhwyso er mwyn gwella.

# Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:
## (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**:

- Sgiliau trefnu ardderchog (H)
- Y gallu i feddwl ar eich traed a gwneud penderfyniadau effeithiol wrth weithio mewn amgylchedd prysur (H)
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol gan gynnwys gwrando'n astud (H)
- Sgiliau rheoli amser ardderchog i sicrhau bod bwyd yn cael ei weini'n brydlon (H)
- Gwybodaeth am arferion gweithio'n ddiogel a hylendid bwyd
- Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth mewn amgylchedd prysur gan ddangos agwedd hyderus a hunan-gymhellol (H)

- Cymhwyster hylendid bwyd sylfaenol.
- NVQ mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid neu'n gallu dangos sgiliau tebyg drwy brofiad
- Gwybodaeth a phrofiad ymarferol o gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac arferion gorau'r diwydiant
- Gallu siarad Cymraeg